# News*letter*

Croeso i gylchlythyr newyddion chwarterol cyntaf Addysg i Oedolion yn y Gymuned. Os oes gennych unrhyw ddigwyddiadau neu gyrsiau ar y gweill yr hoffech iddynt gael eu cynnwys yn ein cylchlythyr nesaf ar gyfer Awst – Hydref 2012, yna e-bostiwch:
susan.preece@merthyr.gov.uk
neu ffoniwch 01685 727099







Mae Addysg Gymunedol yn darparu dysgu i unigolion a grwpiau yn eu cymunedau gan ddefnyddio amrywiaeth o ddysgu ffurfiol ac anffurfiol Mae cyrsiau'n amrywio o rai RhCA mewn Celf a Chrefft, Sgiliau Sylfaenol a TGCh, BTEC mewn Gweinyddu Busnes a Choginio Jamie Oliver, mae cyrsiau iaith fel ESOL a Sbaeneg ar gael ac rydym hefyd yn cynnig cwrs cyfrifiadurol ECDL

Mae'n cyrsiau ni'n rhedeg am tua 20 wythnos gyda'r rhagolygon o estyniad pellach o 10 wythnos ac rydym yn agored i unrhyw un 16+ oed Os hoffech fwy o wybodaeth ar y cyrsiau sydd ar gael neu os oes gennych gwrs mewn golwg yr hoffech inni ei ddarparu i chi, yna cysylltwch ag aelod o'r staff Addysg Gymunedol ar
01685 725058/725306

# Pontydd i Waith

Nod y prosiect Pontydd i Waith yw cefnogi pobl leol i ennill y sgiliau a'r hyder i'w helpu nhw symud tuag at waith cyflogedig. Mae'r prosiect hefyd yn darparu cyrsiau achrededig mewn Cyfrifiaduron, Manwerthu, Dysgu trwy'r Awyr Agored, Adeiladu Hyder, Sgiliau Chwilio am Swyddi a Chrefftau Adeiladu ymysg eraill.

Rydym hefyd yn rhedeg nifer o gyrsiau cyn-cyflogaeth, lle'r ydym yn gweithio mewn partneriaeth â chyflogwyr lleol i gynllunio cyrsiau wedi eu teilwra'n arbennig i helpu'n dysgwyr i ennill gwaith cyflogedig.

Mae'r prosiect hefyd yn cynnwys rhaglenni cymorth personol fel y rhaglenni Lletygarwch a Chefnogi Bywyd trwy sefydliadau partneriaethol sy'n cynnwys Coleg Merthyr Tudful ac Ymddiriedolaeth Ddatblygu'r 3G. Mae gweithwyr cymorth hefyd ar gael i helpu gyda gwaith papur a chludiant neu gallant gynnig cymorth wrth fynychu cyrsiau.

Hyd yma, mae'r prosiect Pontydd i Waith wedi cefnogi 2,849 o gyfranogwyr wrth ennill 3,800 o gymwysterau ac mae 663 o gyfranogwyr wedi ennill gwaith cyflogedig yn y 2 flynedd ddiwethaf.

**Os ydych chi dros 16 oed, yn ddi-waith neu'n gweithio llai na 16 awr yr wythnos ar hyn o bryd, yn byw o fewn Bwrdeistref Merthyr a heb fod yn rhan o Raglen Waith y Llywodraeth, cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth.**

# Mentro Allan

Mae Dysgwch drwy'r Awyr Agored a Pontydd i Waith, a gomisiynwyd trwy Goleg Merthyr Tudful, wedi cyflwyno rhaglen 10 wythnos yn ddiweddar - 'Chwaraeon sy'n Gweithio' mewn partneriaeth â'r Ganolfan Byd a rhaglen gyllid cymorth hyblyg Cyngor Casnewydd. Fe wnaeth y cyfranogwyr rhwng 18 a 24 oed gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau a oedd yn cynnwys cerdded ceunentydd, dringo, cerdded Nordig, beicio, canŵio, mordwyo/darllen map, cerdded mynyddoedd, saethyddiaeth a chwaraeon dan do fel tennis bwrdd, badminton a tennis.

Nod y rhaglen yw datblygu amrywiaeth sgiliau y gellir eu trosglwyddo i fyd gwaith, gan gynnwys adeiladu tîm, gweithio gydag eraill, cyfathrebu, lles personol, iechyd a diogelwch, cynllunio, datrys problemau, arweinyddiad, cadw amser a ffug gyfweliadau.



Caiff y Rhaglen Mentro Allan ei rhedeg bellach gan adran Pontydd i Waith. Y gweithgareddau ar hyn o bryd yw dringo dan do ac yn yr awyr agored, cerdded ceunentydd, beicio, abseilio, ogofa, canŵio, cerdded Nordig a darllen map/mordwyo.
Rydym hefyd wedi cael tri chyfranogwr yn llwyddo i gael gwaith cyflogedig yn ddiweddar, yn amrywio o swydd fel gweithiwr cymorth i rôl ymgynghorol ariannol.

## *PONTYDD I WAITH (Canolfan Hyfforddiant a Chyflogaeth Treharris)*

Cafodd rhaglen arbennig o gyrsiau ei chynllunio ar gyfer pen isaf y cwm i helpu hyfforddi pobl ar gyfer llwyddo i gael gwaith cyflogedig yn y sector manwerthu.

Roedd y rhaglen yn cynnwys cyfuniad o wahanol gyrsiau, y mwyafrif ohonynt yn cael eu cynnal yng Nghanolfan Hyfforddiant a Chyflogaeth Treharris. Enillodd y cyfranogwyr gymwysterau mewn Manwerthu (Dod â'r Archebion i mewn), Hylendid Bwyd, Cario a Chodi, Cymorth Cyntaf Brys, Sgiliau Chwilio am Swyddi ac Adeiladu CV. Fe wnaeth yr holl ddysgwyr deithio hefyd i Bontypridd i fynychu Diwrnod Agored Sainsbury, a oedd yn gyfle gwych i gyfarfod cyflogwr manwerthu mawr a gofyn cwestiynau yn tu allan i sefyllfa cyfweliad ffurfiol.

Mae'r cyfranogwyr wedi cael ei helpu gyda cheisiadau i gyflogwyr manwerthu ac maen nhw'n parhau i chwilio am waith cyflogedig addas. Hyd yma, mae dau o'r unigolion a gymerodd ran yn y rhaglen hyfforddiant manwerthu wedi sicrhau swyddi o fewn amgylcheddau manwerthu, a gobeithiwn y bydd pawb o'n cyfranogwyr yn llwyddiannus wrth chwilio am waith n y dyfodol agos!



## PONTYDD I WAITH (Canolfan Ddysgu'r Gymdogaeth)



Arddangosfa gelf oedd y Prosiect Portreadau Mawr a gynhaliwyd trwy fis Mawrth yn Amgueddfa ac Oriel Gelf Cyfarthfa.

Roedd yr arddangosfa'n canolbwyntio ar bortreadau o bersonoliaethau Cymreig a beintiwyd gan yr artist lleol Steve Samuel. Roedd personoliaethau fel Aled Jones, Julien Macdonald, Bonnie Tyler, The Blackout a Tom Jones ymhlith y llawer a gytunodd i gael eu portreadau wedi eu paentio i'w harddangos, ac a fydd yn cael eu gwerthu mewn ocsiwn yn y diwedd, gydag elw'n mynd tuag at Apêl y Maer: Gofal Canser Macmillan.



Roedd aelodau o'r gymuned yn cael eu cynnwys mewn cymaint o wahanol gamau ag oedd bosibl, gan olygu bod y fframiau ar gyfer y portreadau'n cael eu gwneud gan grŵp cymunedol lleol – ***Pontydd i Waith***. Roedd hyn hefyd yn helpu cyfranogwyr Pontydd i Waith gan eu bod yn gweithio tuag at gymwysterau achrededig mewn Gwaith Saer Coed a Phaentio ac Addurno.



Cafodd yr arddangosfa'i lansio yn Amgueddfa Cyfarthfa 29 Chwefror 2012 ac roedd yn ddigwyddiad o broffil uchel gyda Phrif Weinidog Cymru'n mynychu. Yn sgil llwyddiant y digwyddiad fe wnaeth cais ar i'r arddangosfa gael ei chymryd i lawr i'r Senedd rhwng 28 Mai a 1 Mehefin 2012 a bydd cyfranogwyr Pontydd i Waith, a gymerodd ran yn y prosiect, yn cael eu gwahodd i fynychu.

**Am fwy o wybodaeth ar gyrsiau Adeiladu a gynigir gan Pontydd i Waith, cysylltwch â Mark Kwiecinski ar 01685 727099.**

# Straeon Newyddion

## *Addysg Gymunedol*

**Dyma daith ddigidol gŵr 77 oed sy'n mynychu dosbarth cyfrifiaduron Addysg Gymunedol yn Nhreharris.**

Fe ddeuais i'r dosbarth heb unrhyw gyfrifiadur nac unrhyw syniad o beth i'w wneud na sut i'w wneud. Fodd bynnag, fe ges i gymorth parod gan Cheryl: "Trowch y cyfrifiadur ymlaen ac fe wnaf i'ch rhoi ar waith." Gan edrych yn syn, gofynnais: "Pa fotwm?" ac felly y dechreuodd pethau. Doedd gen i ddim syniad am fysellfyrddau, felly dechreuodd y 'rhyfeddod un bys'.

Y dasg gyntaf oedd Microsoft Word – y peth rhyfedd oedd fod popeth yn cael ei wirio a'i farcio; roeddwn i'n ôl yn yr ysgol wedi'r holl flynyddoedd! Yr ail dasg oedd Microsoft Office a'r tro hwn ro'n i'n dod yn dda (ond dim ond yn dda ag un bys!). Dechreuais fwynhau'r gwaith ac edrychais ymlaen at fynd ar foreau Iau.

Wedyn fe ddaeth negeseuon e-bost a'r rhyngrwyd – roedd yn dipyn o ymdrech, ond gyda thiwtora gwych fe wnaeth y cyfan ddisgyn i'w lle, ond yn dal ag un bys. Fodd bynnag, fe wnes i ddarganfod bod gen i ddwy law, felly mae gen i bellach ddau fys! Yna daeth Powerpoint, gwneud sleidiau, eu cuddio nhw a'u symud nhw a gwneud sioeau sleidiau gydag animeiddio a seiniau. Roedd hyn yn llawer o hwyl.

Yna fe ddaeth taenlenni Excel; os nad ydych chi'n rhy wych gyda mathemateg, mae hwn ar eich cyfer chi! Gydag ychydig fformiwlâu sy'n hawdd i'w cofio, mae'n gwneud popeth drosoch. Llawer o ddiolch i'm tiwtor amyneddgar am adfywio fy ymennydd rhydlyd ac ennyn cymaint o frwdfrydedd ynof tuag at y pethau digidol yma.

**Am fwy o wybodaeth ar Gyrsiau Cyfrifiadurol Addysg Gymunedol neu gyrsiau eraill sy'n cael eu cynnig yn eich ardal, cysylltwch â Ryan Stokes ar 01685 725058**

# Straeon Newyddion

**Growing to Succeed**
**Cyfarthfa Community Greenhouses**

Cafodd grŵp o oedolion yn dychwelyd i addysg lwyddiant mawr yn ddiweddar pan wnaethon nhw lwyddo mewn RhCA garddwriaeth yn ymwneud â thyfu gerddi perlysiau. Fe wnaethon nhw gwblhau cwrs 10 wythnos yn Nhai Gwydr Cyfarthfa'n gweithio mewn partneriaeth â'r 3G i'w galluogi nhw i dyfu perlysiau ffres gartref a deall eu rhinweddau meddyginiaethol. I rai o'r oedolion, hwn oedd y cymhwyster cyntaf iddyn nhw ei ennill ac roedden nhw wrth eu boddau.

Mae Tai Gwydr Cyfarthfa ym Mharc Cyfarthfa'n cynnig rhaglen o gyfleoedd dysgu garddwriaeth achredededig gan gynnwys RhCA a BTEC, sy'n agored i holl aelodau'r gymuned o Ferthyr Tudful. Gall aelodau hefyd fynychu'r cyfleuster ar drefniant galw heibio i dyfu blodau, ffrwythau a llysiau. Rhoddir cyngor a chanllawiau arbenigol gan staff cymwys mewn amgylchedd hamddenol.



**Am fwy o wybodaeth ar gyrsiau yn Nhai Gwydr Cyfarthfa, cysylltwch â Leanne Williams ar 01685 722340**

# Straeon Newyddion

## ***GENESIS***

Cafodd Catherine, rhiant sengl o Ferthyr Tudful, ei chyfeirio at Genesis gan y Tîm Rhaglenni Teuluol. Fe wnaeth Catherine a'i Hymgynghorydd Genesis gyfarfod yn ei chartref ac fe wnaethon nhw drafod gobeithion Catherine i ail-hyfforddi. Fe wnaethon nhw drafod y rhwystrau a wynebwyd gan Catherine a pha gymorth roedd arni ei angen, megis diffyg gofal plant.

Gyda chymorth gofal plant a ddarparwyd gan Genesis, roedd Catherine yn gallu mynychu cysriau byr Genesis a'r rhaglen STEPS a helpodd adeiladu ei hyder a'i symbyliad ac annog Catherine i osod cyrchnodau personol ar gyfer y dyfodol.

Yn fuan, dechreuodd Catherine wirfoddoli unwaith yr wythnos mewn dosbarth Sgiliau lleol; roedd hi wedi sylweddoli o'r blaen fod hwn yn faes yr hoffai weithio ynddo.

Mae Catherine wrth ei bodd yn gwirfoddoli ac yn cefnogi dysgu pobl eraill. Dechreuodd ddilyn cwrs i diwtoriaid sgiliau sylfaenol ac fe wnaeth y gwirfoddoli ei galluogi hi i wneud cysylltiadau rhwng y theori'r oedd hi'n ei ddysgu a'r cymorth ymarferol roedd arni eisiau ei gynnig i eraill. Mae Catherine yn dal i gyfarfod yn rheolaidd gyda'i Hymgynghorydd ac wedi mynd ymlaen i gael cymorth o brosiectau eraill yn y gymuned i'w helpu hi gyda rhwystrau eraill y mae hi wedi eu hwynebu.

Mae Catherine yn edrych ymlaen at ei dyfodol hi a'i theulu ac yn gobeithio cael swydd ddysgu yr haf yma.

GENESIS
CYMRU • WALES 2

ESF
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich Dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your Future
European Social Fund

# Dyfyniadau gan ein Dysgwyr

"Trwy weithio gyda Thîm Genesis, yn enwedig Rachael, dw i wedi darganfod gyrfa newydd ac adennill fy hyder i ddychwelyd i weithio"

Catherine, Ebrill 2012

"Fe wnes i fwynhau'r cwrs ac fe wnaeth y tiwtor fy ngalluogi i ymlacio a theimlo'n hyderus, roedden nhw'n rhagorol yn eu gwaith a digon o amynedd a gofal ganddyn nhw"

Awst 2011

"Roeddwn i'n cael y tiwtor yn hawdd iawn gyrru ymlaen af ef ac fe gawson ni hwyl wrth ddysgu, roedd yr holl amgylchedd yn heddychlon ac yn ddiddorol ac roedd y cyflwyno'n dda. Fe wnes i fwynhau fy hun yn arw"

"Roeddwn i'n hynod o hapus gyda'r ffordd yr aeth popeth, doeddwn i ddim yn teimlo o dan fygythiad o gwbl, ond roeddwn ychydig yn nerfus pan es i mewn i'r ystafell ond fe wnaeth y tiwtoriaid imi deimlo'n hyderus – cafodd popeth ei droi'n bleser"
Mehefin, 2012

# Beth Sydd Ymlaen

## Clwb Gwaith

Pontydd i Waith
Bridges into Work

**Ydych chi'n chwilio am waith ac yn hŷn nac 16 mlwydd oed?**

**Dewch draw i'r Clwb Gwaith i gael cymorth <u>am ddim</u>:**

- Llunio CV a chwblhau ffurflenni cais
- Mynediad i'r rhyngrwyd a hysbysfwrdd swyddi gweigion
- Cyfraniad tuag at gost anfon ceisiadau
- Sgiliau chwilio am waith a sgiliau cyfweliad
- Awyrgylch gyfeillgar a chroesawus

**Dydd Llun 2pm—4pm**

**Canolfan Ddysgu'r Gymdogaeth, Y Gurnos**
**cysylltwch 01685 727099**

**Canolfan Hyfforddi a Chyflogi Treharris**
**cysylltwch 01685 725040**

# Beth Sydd Ymlaen

Isod, mae rhai o’r cyrsiau a gynigir gan Pontydd i Waith; teimlwch yn rhydd i gysylltu â ni i ymuno neu i gael mwy o wybodaeth.

| Enw'r Cwrs | Hyd | Lleoliad | Tiwtor Cyswllt |
|---|---|---|---|
| **Manwerthu** | 3 diwrnod | Canolfan Ddysgu’r Gymdogaeth | Julie Jones 01685 727098 |
| **Sgiliau Sylfaenol yn ôl i Waith** | 5 diwrnod | Canolfan Ddysgu’r Gymogaeth / Llangorse | Julie Jones 01685 727098 Martyn Humphreys 01685 727300 |
| **Sgiliau Chwilio am Swyddi** | 2 diwrnod | TTEC / Ty Castell | Sylwen Thomas 01685 727093 |
| **Adeiladu Hyder** | 2 diwrnod | TTEC | Sylwen Thomas 01685 727093 |
| **Adeiladu** | 9 diwrnod dros 3 wythnos | Canolfan Ddysgu’r Gymogaeth | Mark Kwiecinski 01685 727091 |
| **Dysgu Trwy’r Awyr Agored** | 1 diwrnod | Canolfan Ddysgu’r Gymogaeth | Martyn Humphreys 01685 727300 |
| **Cyn-Cyflogaeth** | Amrywiol | Canolfan Ddysgu’r Gymogaeth | Hannah Hickey 01685 727301 |
| **Dosbarthiadau Sgiliau Sylfaenol** | Amrywiol | Canolfan Ddysgu’r Gymogaeth / TTEC | Paul Cross 01685 727058 |
| **ECDL** | Amrywiol | Canolfan Ddysgu’r Gymogaeth / TTEC | Ken McCaskill 01685 727078 |
| **Cwrs Cyfrifiadurol Byr BCS** | Amrywiol | Canolfan Ddysgu’r Gymogaeth / TTEC | Ken McCaskill 01685 727078 |


# Beth Sydd Ymlaen

## Rhaglen Weithgareddau Genesis 2 (GAP)

Cyrsiau byr rhad ac am ddim ynghyd â gofal plant a thrafnidiaeth AM DDIM i'r rheiny sy'n cymryd rhan
Canolfan Plant Integredig Cwm Golau, Pentrebach.

**Bydd yn rhaid ffonio ymlaen llaw i gadw'ch lle; (01685) 727389**

| Cwrs | Dyddiad ac Amser | Gwybodaeth |
|---|---|---|
| *CAMAU* | *Mai'r 1af –* Gorffennaf y 3ydd 2012 (amser y sesiynau fel arfer: 9.45yb-2.15yp) | *Cwrs wedi'i gynnal gan dîm cynghori Genesis 2. Diben cwrs CAMAU ydi ysgogi a chodi hyder y rheiny fydd yn cymryd rhan. Mae'r cwrs wedi'i achredu fel cwrs Lefel 2. Byddwn yn cynnal y cwrs CAMAU unwaith yr wythnos am gyfnod o 8 wythnos.* |
| Trefn ar Fywyd | Ebrill y 25ain 2012 9.45yb-2.15yp | Diben y sesiwn hon ydi codi hyder y rheiny a fydd yn cymryd rhan, ynghyd â mynd i'r afael ag unrhyw faterion hunan-barch. Max Chadwick fydd yn cynnal y sesiwn. |
| Gwybod y cwbl | *Mai'r 17eg 2012* 9.45yb-2.15yp | *Cwrs wedi'i gynnal gan y tîm Genesis sy'n* ymdrin â gwybodaeth ar hyfforddiant a chefnogaeth gyda dod o hyd i waith yn yr ardal. Bydd cyfle i chi ddysgu mwy am waith gwirfoddol; cefnogaeth gyda dychwelyd i'r gwaith, hyfforddiant yn eich ardal ac ati. |
| Pendantrwydd a Chyfathrebu | Mai'r 30ain 2012 9.45yb-2.15yp | Sesiwn wedi'i chynnal gan y tîm Hyfforddiant Bywyd Integredig. Byddwch yn dysgu am iaith a chyfathrebu ynghyd ag effaith y ddau ar sut rydym ni'n cyfathrebu â'n gilydd. |
| Diogelwch Bwyd | Mehefin yr 20fed 2012 9.30yb-4.00yp | *Cwrs Lefel 2 yw hwn sy'n ymdrin ag* egwyddorion hylendid bwyd. Bydd cyfle i chi ennill tystysgrif ar ddiwedd y dydd drwy gwblhau prawf ar yr hyn a ddysgoch chi yn y sesiwn. |
| Blas ar fwyd | Mehefin y 27ain 2012 9.45yb-2.15yp | *Cyfle i chi ddysgu mwy am ddiogelwch bwyd a sut i greu prydau blasus a fforddiadwy.* |
| 'Up 2 U' *(ar gyfer pobl sy'n ceisio dod o hyd i waith yn y sector blynyddoedd cynnar a gwaith chwarae)* | Gorffennaf y 4ydd 2012 9.45yb-2.15yp | *Cwrs anffurfiol mewn awyrgylch cyfeillgar lle* bydd cyfle i chi ddysgu mwy am gyfleoedd gwaith, gwaith gwirfoddol a hyfforddiant yn y sector blynyddoedd cynnar a gwaith chwarae. |
| Cymorth Cyntaf Sylfaenol | Gorffennaf yr 11eg 2012 9.45yb-2.15yp | *Cwrs Hyfforddiant Cymorth Cyntaf i chi* ddysgu am egwyddorion cymorth cyntaf sylfaenol fel asesiadau risg, clwyfau a gwaedu, dulliau codi cywir a sut i roi cusan fywyd. Tystysgrif ar y diwedd. |
| Bore Coffi | Gorffennaf y 18fed 2012 | *Cyfle i sgwrsio â phobl o wahanol sefydliadau* am yr hyfforddiant a'r gefnogaeth sydd ar gael. |





*Mae'r cwrs yma'n RHAD AC AM DDIM. Rhaid i chi ddod â cherdyn adnabod â llun arno gyda chi.*





Os hoffech chi fwy o wybodaeth, cysylltwch â thîm Genesis 2 ar (01685) 727389 ... cofiwch, bydd yn RHAID i chi gadw'ch lle <u>ymhell</u> ymlaen llaw!!

# Beth Sydd Ymlaen

Mae Addysg Gymunedol yn rhedeg amrywiaeth o gyrsiau ym mhob ardal o Ferthyr. Am fwy o wybodaeth ar y cyrsiau, cysylltwch â Ryan Stokes ar y rhif isod.

| Enw'r Cwrs | Hyd | Lleoliad | Tiwtor Cyswllt |
|---|---|---|---|
| Prosesu Geiriau | 10 weeks | Canolfan Adnoddau Beddllwynog | 01685 725058 |
| Prosesu Geiriau Sylfaenol | 10 weeks | Llyfrgell Dowlais | 01685 725058 |
| Cyflwyniad i Ffotograffiaeth Ddigidol | 10 weeks | Cymunedau'n Gyntaf Troedyrhiw | 01685 725058 |
| Celf o grefft | 10 weeks | Cilhaul | 01685 725058 |
| Cyflwyniad i Arlunio | 10 weeks | Mymwent y Crynwyr | 01685 725058 |
| Clytwaith | 10 weeks | Neuadd Pensiynwyr Trelewis | 01685 725058 |
| Celf | 10 weeks | Bechgyn a Merched Clwb Troedyrhiw | 01685 725058 |
| Arlunio | 10 weeks | Neuadd Pensiynwyr Trelewis | 01685 725058 |

# Beth Sydd Ymlaen

## Bilingual summer craft and horticulture workshops at Cyfarthfa Greenhouses

## Gweithdai Crefft a Garddwriaeth yn Nhai Gwydr Cyfarthfa



Free workshops to include beaded spiderwebs, plant stakes, flower planting and much more!
July 6th, 13th, 20th and 27th 1pm to 3pm
Booking required
For further information or to book contact:
**Leanne Williams: 01685 722340 or**
**Greg Snelgrove: 01685 722176**

Gweithdai am ddim yn cynnwys gwe pry cop gleiniog, ffyn planhigion, plannu blodau a llawer mwy!
Gorffennaf 6ed, 13eg, 20fed a'r 27ain 1pm tan 3pm
Mae angen archebu lle
Am ragor o wybodaeth neu I archebu lle cysylltwch â:
**:Leanne Williams: 01685 722340 neu**
**Greg Snelgrove 01685 722176**

Merthyr Tydfil County Borough Council

Growing to Succeed
Cyfarthfa Community Greenhouses

communities first cymunedau yn gyntaf

# Llais y Dysgwr

**Mae eich llais yn bwysig i ni!**

**Mae arnom angen eich help!**

**Hanfod ein gwasanaeth yw helpu pobl a darparu iddyn nhw’r cymorth y mae arnyn nhw ei angen i ddychwelyd i ddysgu neu waith cyflogedig. Golyga hyn ei bod hi’n wirioneddol bwysig i ni ddarganfod beth ydych chi wedi’i fwynhau, beth sydd wedi gweithio ichi a hefyd beth yn eich barn chi y gallen ni wella arno.**

**Hoffech chi ymuno â Fforwm Dysgwyr a bod yn rhan o ‘Gyngor Dysgwyr’ lle gallwch gyfarfod yn rheolaidd i drafod eich profiad dysgu, eich anghenion, problemau a’n galluogi ni i gael adborth dwy-ffordd adeiladol?**

**Os oes gennych chi ddiddordeb, cysylltwch os gwelwch yn dda.**

**Cysylltwch os gwelwch yn dda â Gail Powell ar 01685 727456**

Pontydd i Waith
Bridges into Work

ESF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Social Fund

3Gs Development Trust
Together as one
Working across the communities of the Gurnos, Galon Uchaf & Penydarren.

ACL
Adult Community Learning

# Cysylltwch â Ni

Os oes gennych chi gwestiynau ynglŷn â'r cyrsiau'r ydym yn eu cynnig, y digwyddiadau'r ydym yn eu cynnig, neu os hoffech chi siarad gyda ni ynghylch yr hyn y gallwn ni ei wneud i helpu, peidiwch â phetruso cyn cysylltu â ni ar y

## Pontydd i Waith:

| | |
|---|---|
| Canolfan Dysgu yn y Gymogaeth | 01685 727099 |
| Canolfan Hyfforddiant a Chyflogaeth Treharris | 01685 725040 |
| Coleg Merthyr Tudful | 01685 726061 |

## Cynnal Bywyd:

| | |
|---|---|
| Deanne Rebane | 07977 618245 |

## Tai gwydr Cyfarthfa:

| | |
|---|---|
| Leanne Williams | 01685 722340 |

## Dysgu Cymunedol

| | |
|---|---|
| Ryan Stokes | 01685 725058 |

## Mentro Allan:

| | |
|---|---|
| Ryan Stokes | 01685 725058 |

## Genesis:

| | |
|---|---|
| Rachael O'Hara | 01685 727392 |
| Belinda Foulkes | 01685 727368 |